

Safonau

Ymwelwyr Annibynnol Cenedlaethol



RHWYDWAITH
CENEDLAETHOL
YR YMWELWYR
ANNIBYNNOL

*"Carwn i ddiolch i fy YA am yr holl gefnogaeth
a hapusrwydd y mae hi wedi'u rhoi imi."*

Beth yw Ymwelydd Annibynnol neu YA?

"Gwirfoddolwr yw Ymwelydd Annibynnol, rhywun sydd yno ar dy gyfer di os bydd angen. Mae hi neu fe yno i wrando, dy gynghori a dy gefnogi di."

Diffiniad gan berson ifanc a gafodd YA

Pam rydym wedi creu Safonau Cenedlaethol i Ymwelwyr Annibynnol?

Mae Deddf y Plant 1989 yn rhan o'n cyfraith ni, i gadw plant yn iach ac yn ddiogel a'u paratoi i fyw fel oedolion. Rhan o hyn yw Gwasanaethau'r Ymwelwyr Annibynnol.

Rydym am i bob plentyn a pherson ifanc ddeall eu hawliau ynghylch Ymwelwyr Annibynnol.

Darlenna ymlaen i ddysgu beth i'w ddisgwyl gan Wasanaeth Ymwelwyr Annibynnol da, a sut galli di helpu i wneud dy wasanaeth lleol yn well byth!

Elusen Gofrestredig Barnardo's: Rhifau 216250 ac SC037605 18836SO17

Rydym yn gwerthfawrogi cyfraniad ardderchog y bobl ifanc yn Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Plant Doncaster a Gwasanaethau YA NYAS yng Ngogledd a De Cymru, a'n helpodd ni i aileirio Safonau Cenedlaethol gwreiddiol yr Ymwelwyr Annibynnol.

Hoffem gydnabod gwaith Ymddiriedolaeth Tudor hefyd sy'n ariannu Prosiect Datblygu Cenedlaethol yr Ymwelwyr Annibynnol, a'r sefydliad sy'n ei letya, Barnardo's.

Diolch i'r holl blant a gyfrannodd eu sylwadau.

**Credwch
mewn plant
Believe in
children**



Barnardo's
Cymru

**the
Tudortrust**

1

Plant a phobl ifanc

- Dylai dy weithiwr cymdeithasol dy helpu i ddeall dy hawl i gael Ymwelydd Annibynnol.
- Dylai'r Gwasanaethau Cymdeithasol roi cyhoeddusrwydd i fodolaeth eu Gwasanaeth Ymwelwyr Annibynnol.

"Rwy'n gallu trafod gwahanol brobleman gyda fy Ymwelydd Annibynnol. Rydyn ni'n cael hwyl gyda'n gilydd hefyd."



2

Plant a phobl ifanc

- Dylai dy Wasanaeth Ymwelwyr Annibynnol wrando ar dy farn a dy sylwadau di.
- Ti sy'n cael dewis a wyt ti eisiau cael Ymwelydd Annibynnol a phenderfynu ynghylch pethau i'w gwneud gyda'ch gilydd; ac os daw'r gydberthynas i ben cei di benderfynu sut i ddweud hwyl fawr.



3

Plant a phobl ifanc

- Ni fydd dy Ymwelydd Annibynnol yn datgelu i neb arall y pethau y byddi di'n dweud wrthi/o, onid oes angen ei wneud i dy gadw di neu rywun arall yn ddiogel.

"Rhywun y galla i siarad â hi yw fy Ymwelydd Annibynnol, heb gysylltiad â neb arall...rhywbeth preifat yw hyn."



4

Plant a phobl ifanc

- Dylet ti gael cyfle i helpu Gwasanaeth yr Ymwelwyr Annibynnol drwy egluro sut hoffet ti i bethau fod ar dy gyfer.
- Gallai dy dalentau a dy syniadau di wella sut mae Gwasanaeth yr Ymwelwyr Annibynnol yn cael ei redeg.



"Rwy'n credu y dylai oedolyn wirfoddoli i fod yn YA, oherwydd gallai hyn helpu plentyn neu oedolyn ifanc fel fi i fod yn fwy hyderus."

5

Ymwelwyr Annibynnol Gwirfoddol

- Bydd dy Ymwelydd Annibynnol yn cael ei archwilio a'i ddethol yn ofalus i wneud yn siŵr ei fod yn berson sy'n addas i'r rôl.
- Bydd yn ymrwymo i fod yn Ymwelydd Annibynnol iti am o leiaf blwyddyn.



*"Cofia fod dy wirfoddolwr yn gwneud hyn
o'i wirfodd, nid am fod rhaid iddo ei wneud!"*

6

Ymwelwyr Annibynnol Gwirfoddol

- Dylai dy Ymwelydd Annibynnol dderbyn cymorth a hyfforddiant cyn ac yn ystod y cyfnod pan fydd yn gwirfoddoli, fel y gall weithredu fel Ymwelydd Annibynnol da.



Gallet ti chwarae rhan drwy hyfforddi gwirfoddolwyr ar gyfer dy wasanaeth lleol neu gyfnewid â nhw.



7

Y gydberthynas

- Dylai Gwasanaeth yr Ymwelwyr Annibynnol gael ei esbonio iti, gan gynnwys sut byddwch chi'n cwrdd a sut byddwch chi'n dweud hwyl fawr.

"Mae'n wych cael YA, achos mae'n berson arall i siarad â ti, rhywun y galli di deimlo'n gyfforddus yn ei gwmni."



8

Y gydberthynas

- Bydd dy Ymwelydd Annibynnol yn ffrind a fydd yn creu perthynas ymddiriedus drwy ymweld â ti'n rheolaidd.

"Mae bod â gwirfoddolwr yn werth y byd imi. Mae'r gwirfoddolwr gyda fi ers 7 blynedd ym mis Rhagfyr, ac rydyn ni'n dal i weld ein gilydd ac yn cynllunio i fynd allan."



9

Y gydberthynas

- Dylet ti gael cyfleoedd i ddweud dy farn am dy Ymwelydd Annibynnol, er mwyn gwneud yn siŵr dy fod yn ddiogel ac yn fodlon ar eich perthynas.

"I fod yn sicr o baru'n dda â dy wirfoddolwr, rhaid iti esbonio i dy weithiwr cymdeithasol neu gydlynnydd yr Ymwelwyr Annibynnol beth sydd ei angen arnat ti."



10 Rheolaeth

- Gwirfoddolwr yw dy Ymwelydd Annibynnol. Mae hyn yn golygu nad yw hi/e'n derbyn tâl am yr amser y mae'n ei dreulio gyda ti.
- Bydd dy Ymwelydd Annibynnol yn gweithredu ar wahân i adran y gwasanaethau cymdeithasol er mwyn aros yn annibynnol.



Clicia yma ar gyfer Safonau Cenedlaethol gwreiddiol yr Ymwelwyr Annibynnol a'r Pecyn Cymorth Arferion Gorau.



11 Rheolaeth

- Mae rheolau a chanllawiau mewn grym i dy gadw di, dy Ymwelydd Annibynnol a Chydlynnydd yr Ymwelwyr Annibynnol yn ddiogel pan fyddwch yn gweithio gyda'ch gilydd.

"Y peth gorau ynghylch fy YA yw ei bod hi'n amyneddgar iawn ac yn parhau cyfrinachedd."



12 Rheolaeth

- Dylai fod digon o gyllid, rheolaeth a staff gan eich Gwasanaeth Ymwelwyr Annibynnol i'w gwneud hi'n bosibl i fwy o blant a phobl ifanc gael Ymwelydd Annibynnol.
- Yr awdurdod lleol ddylai ddarparu.

"Rwy'n mynd i nofio, bowlïo, bwyta allan a chwarae pêl-droed gyda fy Ymwelydd Annibynnol."



13

Rheolaeth

- Dylai Gwasanaeth yr Ymwelwyr Annibynnol gadw at y canllawiau ynghylch Cydraddoldeb ac Amrywioldeb gan beidio â thrin neb yn annheg.

"Gwnaeth hi imi anghofio fy mod i mewn gofal, a chodi fy nghalon ar ddyddiau pan oeddwn i'n teimlo'n isel."



14

Rheolaeth

- Mae hawl gen ti a dy Ymwelydd Annibynnol i gwyno am Wasanaeth yr Ymwelwyr Annibynnol, a dylai fod yn hawdd ichi wneud hyn.
- Dylai dy gwynion gael eu trafod yn gyflym ac o ddifrif.



Gofynna am Ymwelydd Annibynnol yn dy arolwg LAC neu siarada â dy weithiwr cymdeithasol.



